PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 33/34 | Awst 15/22, 2024 | 50c.

## Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd – Rhanbarth Ewrop. 13-14 Mehefin 2024

Prin fis o fod yn y cyfarfod yn Grand Rapids, Michigan (UDA) fel Pwyllgor Gweinyddol Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC), dyma Ranbarth Ewrop o'r Cymundeb yn cyfarfod ym Männedorf, pentref bychan ar lannau llyn Zurich, rhyw hanner awr o daith trên o orsaf ganolog y ddinas. Cyrraedd gwesty Boldern a darganfod bod y gwesty yn sefyll ar safle hen athrofa a chanolfan ddiwinyddol â chysylltiadau â'r diwinydd ffeministaidd, Marga Bührig, a'r diwinydd Emil Brunner fu'n cydweithio gyda Karl Barth.



### Adroddiadau

Bu i ni fwrw ati i'r gwaith ar ein hunion; dim ond diwrnod a hanner oedd gennym! Bûm yn adrodd 'nôl ar nifer o weithgareddau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn arbennig felly ein cynlluniau hyfforddi, apêl Ffynhonnau Byw, ein cenhadaeth ddigidol, ac eglwysi dementia-gyfeillgar. Yn yr un modd cafwyd adroddiadau gan gynrychiolwyr yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon, ac Eglwys yr Alban (cynrychiolwyr o ynysoedd Prydain) ynghyd ag adroddiadau gan ryw bump ar hugain o gynrychiolwyr eraill ledled Ewrop – yn cynnwys ystod o eglwysi ac undebau megis Eglwys Bresbyteraidd Efengylaidd Portiwgal, Eglwys Ddiwygiedig Rwmania ac Eglwys Efengylaidd Brodyr Tsiecaidd. Efallai mai'r adroddiad mwyaf dylanwadol oedd hwnnw gan gynrychiolydd Eglwys Ddiwygiedig Transcarpathia fu'n sôn am yr hyn sy'n digwydd yn Wcráin – ei apêl oedd ar i ni beidio â'u hanghofio.

### Plannu eglwysi

Bu'r trafodaethau'n eang yn ystod y deuddydd gyda'r hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol yn cael lle canolog; hefyd buom yn trafod cenhadaeth yr eglwys yn Lithwania yn paratoi llety a chefnogaeth i blant a phobl ifanc y Romani, ac yna datblygiadau cyffrous yn yr Almaen, Awstria, Hwngari a'r Iseldiroedd lle mae

*parhad ar dudalen 2*

## Ysgol Sul Pen-cae




Dyma lun o blant a ffrindiau ysgol Sul Pen-cae, Llanarth ar eu trip ysgol Sul i Barc Antur Heatherton, sir Benfro ar ddiwedd Mehefin. Maent wedi ymroi yn yr ysgol Sul eleni eto a chymryd rhan mewn oedfaon a'r gymanfa, sefyll yr arholiad llafar a chwblhau prosiect Denman ymysg pethau eraill, ac yn haeddu trip da! Mwynhaodd pawb yn fawr.

**Catrin Bellamy-Jones**

## Y Parchg T. Howell Mudd

Tristwch mawr gennym oedd clywed am farwolaeth y Parchg T. Howell Mudd yn ddiweddar. Codwyd Hywel i'r weinidogaeth gan y Parchg Dr Emlyn Jenkins yn eglwys Ebeneser, Caerdydd ac yntau'n gweithio yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Bu'n weinidog i'r Arglwydd Iesu yng Nghilcennin, Dihewyd a Phisga 1970–83; Gwynfryn, Rhydaman a Seion, Llandybie 1983–9; Glandŵr, Cefn-y-pant, Llwyn-yr-hwrdd a Brynmyrnach 1989–; Hebron a Nebo 2004–8.

Cydymdeimlwn gyda'i berthnasau a'i gyfeillion yn eu profedigaeth a'u hiraeth. Bydd teyrnged lawn iddo yn ymddangos yn *Y Tyst* yn y dyfodol agos.

[Wrth fynd i'r wasg, clywsom hefyd am farwolaethau'r Parchedigion Irfon Evans, Llanbadarn gynt, a Gwynn Bowyer, Caerfyrddin. Coffa da amdanynt. Daw teyrngedau iddynt ill dau yn *Y Tyst* maes o law.]

## Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd – Rhanbarth Ewrop. 13-14 Mehefin 2024 – *parhad*

ffenomenon plannu eglwysi newydd wedi cydio. Er yn brin o wybodaeth fanwl, cymerais innau'r cyfle i sôn am 100.Cymru a'r bwriad o weld 100 o eglwysi yn cael eu plannu yn ein gwlad dros y ddegawd nesaf.

### Hunaniaeth ddiwygiedig

I mi, y sesiwn mwyaf diddorol fu honno o dan arweiniad yr Athro Margit Ernst-Habib ar 'Chwilio am Hunaniaeth Ddiwygiedig'. Dyma'r ail dro i mi ei chlywed yn traethu ar y pwnc hwn; bûm yn ddigon ffodus i gael cyfle i wrando arni yn darlithio i'w chyd-academyddion tra roeddwn yn gweithio ym Mhrifysgol Friedrich Schiller yn Jena, yr Almaen, 'nôl yn 2015. Bu'r Athro yn (i) taflu llygad 'nôl ar sut rydym wedi chwilio am hunaniaeth ddiwygiedig ar hyd y degawdau; (ii) gofyn beth yw 'hunaniaeth – ai ffenomen allweddol neu air a thipyn o blastigrwydd yn perthyn iddo?; a thrafod (iii) hunaniaeth ac unfathrwydd Duw; (iv) agweddau diwinyddol canolog ar hunaniaeth ddiwygiedig; cyn gofyn (v) a ydym wedi cyrraedd? Gofynnwyd i mi gymedroli un grŵp





dehongli a buom yn trafod (i) pam chwilio hunaniaeth ddiwygiedig?; (ii) beth sy'n ein gwneud ni'n 'ddiwygiedig'?; (iii) beth yw cynnwys ein 'Cyffes Ddiwygiedig' heddiw?; a (iv) sut mae angen i ni newid er mwyn cyrraedd y nod o fod yn 'ddiwygiedig'? Gwelaf y fath drafodaethau yn hynod addysgiadol ac yn ehangu gorwelion fy ffydd, ac yng nghanol gosodiadau gan gyd-Gristnogion tir mawr Ewrop am Martin Luther, John Calvin, Philip Melanchthon a Huldrych Zwingli barnaf mai da yw medru sôn am y rheini fu'n arwain gyda ni yng Nghymru megis Vavasor Powell, Walter Cradock, ac wrth gwrs John Penri.

### Cymuno

Bu nifer o drafodaethau busnes a chyflwyniadau gan y Parchedig Setri Nyomi, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cymundeb, a'r Llywydd, y Parchedig Najla Kassab. Cafwyd hefyd sesiwn ar y Gymanfa Gyffredinol a gynhelir yn Chiang Mai, Gwlad Tai yn Hydref 2025. Wedi gorffen ein trafodaethau cafwyd bendith o gydgymuno yn yr Eglwys Ddiwygiedig yn Männedorf gyda'r Parchedig Jenny Dobers o'r Eglwys Unedig yn Sweden yn arwain.

Diolch am gael cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y cydgyfarfod hwn.

**Hefin Jones**

# Y Seintiau Newydd

Yn ein hoes fodern, mae'r adleisiau o addoliad a oedd unwaith yn llenwi eglwysi cadeiriol mawreddog a chapeli diymhongar wedi dod o hyd i gartref newydd yn arenâu bywiog gwyliau cerdd. Dim ond cipolwg sydd ei angen ar dorfeydd brwd gŵyl gerddoriaeth Glastonbury i weld golygfa o ddefosiwn sy'n cystadlu â brwdfrydedd crefyddol y canrifoedd a fu. Mae cantorion pop ac artistiaid yn cymryd y llwyfan, ac mae degau o filoedd o gefnogwyr addolgar yn codi eu dwylo ac yn chwifio eu baneri, gan greu golygfa sy'n atgoffa rhywun o gynulliadau crefyddol yr oes a fu. A baner Dewi Sant yn un ohonynt.



Mae'n ddiddorol ystyried sut mae rôl seintiau a ffigurau crefyddol wrth arwain, ysbrydoli, a bod yn ganolbwyntiau defosiwn wedi'u hadlewyrchu gan eiconau cerddoriaeth gyfoes. Mae'r llu o gefnogwyr, sy'n awyddus i gael cipolwg ar eu heilunod, yn ymgorffori math o addoliad sy'n drawiadol o debyg i'r hyn a oedd gan gredinwyr hynafol a chanoloesol a oedd yn parchu'r saint ac yn ceisio'u hymbiliau.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Terfysgoedd



Y mae'r terfysgoedd sydd wedi digwydd mewn trefi a dinasoedd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ddiweddar wedi bod yn destun braw i bawb ohonom. Ar y newyddion dyddiol ac ar fideos ar y cyfryngau cymdeithasol fe welwyd pobl – dynion gwyn gan mwyaf – yn ymddwyn yn gwbl anwaraidd tuag at eraill ac yn enwedig tuag at bobl o dras wahanol. Ymosodwyd ar unigolion sydd â chroen tywyll ac ar adeiladau sy'n lletya ymgeiswyr lloches. Mae llawer o bobl bellach, nad ydynt yn groenwyn yn byw mewn ofn yn eu cymuned eu hunain. I Gristnogion mae ymddygiad fel hyn yn orffwyll ac y mae'n annealladwy sut mae pobl yn gallu bod mor ffiaidd tuag at eu cyd-ddyn. Trist iawn yw gweld hyn yn digwydd.

Y mae'n amlwg bod cryn anniddigrwydd ac anfodlonrwydd o fewn i rai carfannau yng ngwledydd Prydain, sydd yn agos iawn i'r wyneb. Ar ben hynny y mae unigolion a mudiadau asgell dde yn annog pobl i ymddwyn yn hiliol ac yn dreisgar. Testun gofid a gweddi yw'r hyn a ddigwyddodd yn Southport o ganlyniad i lofruddiaeth y tair geneth fach yno. Llofruddiwyd Bebe King, chwech oed, Elsie Dot Stancombe, saith oed ac Alice da Silva Aguiar, naw oed mewn sesiwn ddawnsio ar gyfer plant. Roedd y digwyddiad ynddo'i hun yn uffernol ond mae'r ffaith i rai ddefnyddio'u marwolaethau fel rheswm i derfysgu yn affwysol. Mae hyn yn gwbl annerbyniol ac y mae'n rhaid inni sefyll gyda'r bobl hynny o fewn ein cymunedau sydd o dras ethnig wahanol. Nawr gwelwn eto pa mor bwysig yw ein tystiolaeth Gristnogol heddiw sy'n dysgu goddefgarwch a bod pob unigolyn yr un mor werthfawr yng ngolwg Duw.

Daliwn ati i weddïo am heddwch a chyfiawnder yn ein cymunedau ac am ddoethineb i'n harweinwyr gwleidyddol. A pharhawn yn enw'r Iesu i fod yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd. Mae ein tystiolaeth nid yn unig yn bwysig, y mae yn hanfodol.

# Y Seintiau Newydd – parhad

### Daearu'r dwyfol

Yn hanesyddol, roedd saint yn cael eu parchu nid yn unig am eu duwioldeb, ond am eu gallu canfyddedig i gysylltu'r dwyfol â'r daearol. Roeddent yn gyfryngwyr a ysbrydolodd y ffyddloniaid a darparu enghreifftiau o fywyd sanctaidd. Heddiw, mae sêr pop ac artistiaid wedi cymryd y rôl gyfryngol hon, er mewn cyd-destun seciwlar. Maent yn cysylltu â'u cynulleidfaoedd trwy gerddoriaeth a phersona, gan gynnig cysur, cymhelliant ac ymdeimlad o berthyn.

Ystyriwch yr awyrgylch yn Glastonbury yr wythnos hon, môr o ddynoliaeth wedi'i huno mewn addoliad cyffredin. Mae cefnogwyr yn canu ynghyd â dwyster bron yn grefyddol, eu hwynebau wedi'u goleuo gan oleuadau'r llwyfan wrth iddynt brofi eiliadau o drosgynoldeb. Mae'n brofiad cymunedol, un sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth a phwrpas i lawer, yn debyg iawn i wasanaethau addoli ar y cyd yr eglwys.

### Addoliad secwlar

Mae'r newid hwn mewn ffocws o addoliad crefyddol i addoliad seciwlar yn codi cwestiwn ingol: sut gall yr eglwys unwaith eto ddod yn ganolbwynt y fath ddefosiwn dwys ac ysbryd cymunedol? Gall yr olygfa o wyliau cerddoriaeth modern ddysgu llawer i ni am y natur ddynol a'n dyhead cynhenid am gysylltiad, ysbrydoliaeth, ac ymdeimlad o berthyn.

### Perthnasedd

Yn gyntaf, gall yr eglwys ddysgu pwysigrwydd perthnasedd. Yn union fel y mae artistiaid yn siarad â brwydrau, gobeithion a breuddwydion y genhedlaeth bresennol, rhaid i'r eglwys ymgysylltu â materion cyfoes a siarad â chalonnau pobl heddiw. Mae hyn yn golygu cofleidio dulliau cyfathrebu modern, mynd i'r afael â materion cymdeithasol, a bod yn bresennol yn y mannau digidol lle mae pobl yn treulio eu hamser. Ydyw hi'n amser nawr i feithrin cyfansoddwyr ifanc i baratoi arlwy o 'emynau' newydd i ni?

### Cymuned

Yn ail, rhaid i'r eglwys feithrin ymdeimlad o gymuned. Mae gwyliau cerdd yn llwyddo oherwydd eu bod yn creu profiad a rennir, ymdeimlad o undod ymhlith y mynychwyr. Gall yr eglwys adeiladu hyn trwy annog ffurfiau mwy rhyngweithiol a chyfranogol o addoli, lle mae'r gynulleidfa'n teimlo eu bod yn cymryd rhan weithredol yn hytrach na derbynwyr goddefol.

### Celfyddydau

Yn olaf, dylai'r eglwys gofleidio'r celfyddydau yn llawnach. Drwy gydol hanes, mae'r eglwys wedi bod yn noddwr i'r celfyddydau, gan gydnabod eu gallu i symud ac ysbrydoli. Trwy gefnogi ac ymgorffori ymadroddion artistig modern o fewn addoliad a gweithgareddau eglwysig, gall yr eglwys bontio'r bwlch rhwng y cysegredig a'r seciwlar.

I gloi, er y gall sêr pop ac artistiaid heddiw fod yn seintiau newydd i lawer, mae eu poblogrwydd yn tanlinellu dyhead dynol dwfn am gysylltiad ac ysbrydoliaeth. Mae'r eglwys, gyda'i threftadaeth gyfoethog a'i neges barhaus o obaith a chariad, mewn sefyllfa unigryw i ddiwallu'r angen hwn. Trwy ddysgu o'r brwdfrydedd a welwyd mewn digwyddiadau fel Glastonbury, gall yr eglwys unwaith eto ddod yn ffagl goleuni, gan dynnu pobl i mewn i brofiad dwfn a thrawsnewidiol o gymuned a ffydd ac fel sydd yn y darlun, i chwifio baner Dewi Sant yn frwdfrydig unwaith eto.

**Gwyn Jones**
(oddi ar wefan CapelSeion.uk)

Yr Adran Gydenwadol


AWST 15 2024 RHIF 181/182

# Gweithwyr ymhlith plant – mae ar ein heglwysi eich angen CHI!

### Ymateb i argyfwng

Dros y pum mlynedd diwethaf daeth llawer o waith plant yn ein heglwysi i ben. Bydd ardaloedd cyfan bellach heb ysgol Sul neu glwb plant, a neb yn ymweld ag ysgolion i arwain gwasanaethau neu gynllun Agor y Llyfr. Mae sawl teulu wedi cysylltu â ni yn dweud eu bod yn profi cryn anhawster yn aml i ddod o hyd i eglwys sy'n cynnig darpariaeth i deuluoedd.

Ond erys y ffaith bod ein cymunedau ar y cyfan yn llefydd sy'n llawn plant o hyd, ac yn aml nid prinder plant a welir, ond prinder arweinwyr. Wedi cyfnod y clo bu i lawer o athrawon ac arweinwyr ymddeol o waith yr ysgol Sul, ac erbyn hyn tystia llawer o ardaloedd nad oes neb ar gael i barhau â'r gwaith. Bellach, nid oes gan 95% o blant Cymru gysylltiad real ag eglwys, a heb do newydd o bobl sy'n barod i ymroi i'w haddysgu am y ffydd a'r cefndir Beiblaidd bydd y ffigur yma'n cynyddu.




### Hyfforddiant a chefnogaeth ar gael

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae grŵp o enwadau a sefydliadau ar hyd a lled Prydain, gan gynnwys y Cyngor Ysgolion Sul, wedi bod yn gweithio ar gwrs newydd er mwyn hyfforddi, ysbrydoli ac arfogi'r don nesaf o weithwyr plant yn ein heglwysi. Efallai y bydd rhai ohonoch yn dwyn i gof gynlluniau hyfforddiant Caleidosgob (a gyhoeddwyd yn 1992) a Dal d'afal (a gyhoeddwyd yn 2007), a fu'n fodd i gynnig hyfforddiant i weithwyr plant dros gyfnod o 30 mlynedd. Fodd bynnag, cafwyd sawl newid a datblygiad dros y cyfnod hwnnw, a gwelwyd yr angen am gynllun newydd.



### Hanfodion gweithio gyda phlant

Erbyn mis Medi eleni bydd cwrs newydd ar gael. Cwrs digidol ar-lein fydd hwn, wedi ei ddatblygu gan Theology X, sydd wedi ei leoli yng ngholeg Cliff yn Swydd Derby, dan nawdd yr Eglwys Fethodistaidd. Bydd hwn yn gwrs 10 modiwl y gall unigolyn ei wneud yn ei amser ei hun, neu mae'n bosib gweithio dros Zoom fel rhan o grŵp o dan arweiniad hwylusydd. Er mai yn Saesneg yn unig y mae'r cwrs ar gael y tro yma, bydd modd gweithio gyda grwpiau Cymraeg dros Zoom, lle byddai cyfle i drafod cwestiynau dros y we.

Bydd dau gwrs newydd ar gael, sef Essential Children's Ministry, a fydd yn cael ei lansio fis Medi 2024, ac yna Essential Family Ministry, a fydd yn cael ei lansio fis Medi 2025. Dyma gyfle gwych i gynnig hyfforddiant gwerth chweil i baratoi criw o weithwyr newydd ar gyfer y dyfodol, neu efallai i ysbrydoli rhai sydd eisoes yn rhan o'r gwaith. Gellid ei drefnu ar lefel enwadol neu'n rhanbarthol yn gydenwadol – efallai fel project gofalaethol neu fel Cyfundeb / Cymanfa / Henaduriaeth.

### Cefnogaeth mewn adnoddau

Ni fu cyfnod yn ein hanes lle bu cymaint o ddewis ar gael ar gyfer gweinidogaethu ymhlith plant. Mae digonedd o werslyfrau a Beiblau gweithgaredd ar gael, digon o adnoddau am ddim ar y we, a digon o gynlluniau gwahanol sy'n fentrus a chyffrous. Ond, er mwyn i'r rhain lwyddo'n lleol, rhaid wrth bobl sy'n barod i fentro ac sy'n barod i ddatblygu sgiliau newydd. Tybed a yw Duw yn eich galw chi? Mae'n alwedigaeth arbennig, a braint aruthrol yw plannu hadau ym mywydau pobl ifanc. Cewch mwy o wybodaeth am y cyfan ar wefan www.ysgolsul.com.

*Aled Davies*

# O'r byd a'r betws

Yn ystod rali enfawr y Gweriniaethwyr yn yr Unol Daleithiau, saethwyd at Donald Trump, a thrawodd elfen o'r fwled ei glust, gan achosi tipyn o waedu. Yn yr un ymosodiad saethwyd dyn a safai yn ymyl y cyn-arlywydd yn farw, a niweidiwyd eraill. Yn ddiweddarach yn yr ymgyrch, hawliodd Mr Trump na ddylai fod yn fyw, ond diolchodd fod Duw o'i blaid drwy ei arbed. Ar y llaw arall, gadawodd y cwestiwn 'A oedd Duw o blaid y sawl a fu farw?' heb fawr o ddilyniant. Ynghanol rhethreg yr araith, manteisiodd ar y sefyllfa, heb ystyried goblygiadau'r sylw. Wrth ledu'r cwestiwn ymhellach, a fydd unrhyw un am ddadlau fod popeth sy'n digwydd, yn digwydd am mai dyna yw ewyllys Duw? Prin y byddai llawer o ddiwinyddion am ddadlau felly.

Ychydig wythnosau ynghynt, holwyd yr Arlywydd Joe Biden a fyddai'n barod i ystyried peidio â sefyll fel ymgeisydd y blaid Ddemocrataidd, oherwydd ei berfformiad tila o flaen y camera mewn dadl gyda Mr Trump. Ymddangosodd yn ffwndrus ar achlysuron eraill hefyd, a hawliodd yr Arlywydd mai dim ond allai ei rwystro. Bellach, penderfynodd yr Arlywydd mai dal 'nôl rhag derbyn yr enwebiad oedd y cam doethaf iddo, a byddwn yn clywed yn fuan beth fydd penderfyniad cynhadledd y Democratiaid wrth enwebu eu hymgeisydd newydd. Peth peryglus yw cymysgu datganiadau crefyddol am ymyrraeth Duw mewn sefyllfaoedd a berthyn i'r byd hwn. Ni fyddem am wadu gallu Duw i wneud unrhyw beth, gan ei fod wedi caniatáu i bobl arfer eu rhyddid i wneud penderfyniadau a derbyn y cyfrifoldebau.

Magwyd Donald Trump mewn eglwys Bresbyteraidd, ac yn ddiweddarach bu'n gysylltiedig ag Eglwys Marble Collegiate, cynulleidfa sydd ar ochr dde'r sbectrwm ddiwinyddol yn yr Unol Daleithiau. Erbyn diwedd ei gyfnod yn y Tŷ Gwyn, dyfynnwyd Mr Trump yn dweud nad oedd uniaethu ag unrhyw enwad Protestannaidd. Nodir bod Mr Biden wedi ei fagu fel pabydd, ac mae'n addoli'n selog gyda'r Eglwys Gatholig. Soniodd Mr Sunak, cyn-Brif Weinidog Prydain, yn achlysurol am ei hunaniaeth Sicaidd, tra mae Mr Drakeford a Syr Keir Starmer yn galw eu hunain yn ddyneiddwyr, heb argyhoeddiadau ysbrydol. Nodwyd bod pymtheg o aelodau'r Senedd yng Nghaerdydd yn ddiaconiaid mewn eglwysi, a mwy sy'n Gristnogion yn eu plith, a'u bod yn cynnal cyrddau gweddi trawsbleidiol yn gyson.

Prin fod lle mewn erthygl yn *Cenn@d* i drafod perthynas crefydd a gwleidyddiaeth, ond dros y ganrif ddiwethaf, gwyddom am ddylanwad crefyddwyr ar feddwl llywodraethau Mwslemaidd. Hefyd, nid oes trafodaeth agored yn Israel ar ddylanwad yr offeiriaid Iddewig ar bolisïau'r llywodraeth mewn perthynas â'r rhyfel yn erbyn y Palestiniaid. Pan weddïwn am heddwch yn ein byd, beth yn union rydym yn gofyn i Dduw ei wneud? Ai ymyrryd mewn ffordd ddramatig neu ddylanwadu ar y cyrff eglwysig yn Rwsia ac Wcráin i ddarganfod eu llais, a herio'r rhai sydd mewn swyddi canolog mewn llywodraethau cenedlaethol? Pan fydd yr Archdderwydd yn gofyn 'A oes heddwch?', cyn coroni neu gadeirio'r bardd buddugol, bydd yn gofyn am ganiatâd unfrydol y gynulleidfa i hynny ddigwydd. Sut mae deall erfyniad am heddwch ar wefus y gweddïwr, a phwy neu beth sy'n mynd i wireddu'r dyhead didwyll a difrifol hwn?

*Denzil John*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 18 Awst, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 18 Awst, am 12yp**
Oedfa dan ofal Eryl Parry, Llangelynnin

## Lansio cyfrol newydd ar weddi

Fel rhan o ddathliadau Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghroes-goch lansiwyd y gyfrol *Sut i Weddïo*, sef addasiad Meirion Morris o gyfrol Pete Grieg *How to Pray*. Gweledigaeth Geraint Morse oedd cyhoeddi'r gyfrol yn y Gymraeg, a diolch i noddwr hael fe wireddwyd ei freuddwyd. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair, ac mae ar gael yn y siopau am £12.99.



## Lansio dwy gyfrol o waith Noel Davies

Fel rhan o ddathliadau cynhadledd flynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhaliwyd yn Nhrefforest yn ddiweddar, lansiwyd dwy gyfrol wreiddiol gan y Parch Noel Davies. Mae *Ambell Gam drwy'r Flwyddyn* yn gasgliad o anerchiadau ac emynau gwreiddiol o waith yr awdur, tra mae *Gair yn ei Bryd* yn gasgliad o'i erthyglau a gyhoeddwyd yn *Y Tyst* ar hyn y blynyddoedd. Cyhoeddwyd y ddwy gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair, ac maent ar gael o'ch siop Gymraeg leol. Cyflwynwyd copïau i'r awdur gan Jeff Williams a Dyfrig Rees, ac mae Aled Davies hefyd yn y llun.



# Sioe Fawr y Cardis – bwrlwm gweithgaredd yr eglwysi dan nawdd Cytûn

Yn ôl yr arfer, roedd presenoldeb yr eglwysi yn amlwg ar faes y Sioe Fawr yn Llanelwedd yn ddiweddar, a hynny drwy ymroddiad y tîm o gaplaniaid oedd yn cerdded maes y sioe o fore tan nos yn cyfarfod ac yn sgwrsio â phobl. Yn ogystal â hynny, roedd gan Cytûn eu stondin arferol yn dystiolaeth o waith yr eglwysi. Braf cofio hefyd fod y sioe yn dechrau ag oedfa yn y dref, ac yn dilyn hynny Cymanfa Ganu Moliant y Maes yn y sied ddefaid. Dyma bigion o'r hyn a ddigwyddodd ar y maes eleni.



Moliant y Maes yng ngofal côr o bobl oedd wedi dod ynghyd o wahanol ardaloedd Ceredigion. Braf oedd gweld y sied dan ei sang gyda nifer yn sefyll o gwmpas yr ymylon



Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn arwain yr addoliad ar y bore Mawrth



Arddangosfa 'Beibl mewn Gwlân' gan Fyddin yr Iachawdwriaeth fel rhan o'i dathliadau i nodi 150 mlynedd o weithio yng Nghymru



Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Cytûn yn arwain yr oedfa fore Iau



Yr Esgob Dorrien Davies yn arwain oedfa bore Mercher, a'r ficer, Tim Williams, yn cymryd seibiant o'i waith fel caplan ar y maes



Bwrlwm yn y babell: gwaith plant yn y blaen ac oedolion yn mwynhau paned a sgwrs yn y cefn



Y gynulleidfa o flaen y babell yn ystod oedfa'r bore



Delyth Wyn a Gethin Rhys yn cael sgwrs ddifyr gyda chaplan y fyddin, oedd wedi ei lleoli yn Aberhonddu



Aled Davies a Gethin Rhys yn croesawu Peredur Owen Griffiths, AS, i mewn i'r babell – yntau wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r babell yn y gorffennol. Daeth nifer o Aelodau'r Senedd a'r Llywodraeth i'n gweld yn ystod yr wythnos.

# John Elias (1774–1841)

Sut mae croniclo bywyd rhywun mewn ychydig eiriau? Y demtasiwn yw defnyddio gormodiaith neu orgyffredinoli. Ac nid datblygiad diweddar mo hyn. Yn ei gyfrol am Michael D. Jones ym 1903, dywed E. Pan Jones: 'yr oedd M. D. Jones yn ddyn MAWR'. Neu beth am werthusiad Owen Thomas yn *Cofiant y Parchedig John Jones Talsarn* (1874): 'Yr ydoedd, y mae yn ddiammheuol, y pregethwr mwyaf poblogaidd ... a gododd erioed yn Nghymru.' Tipyn o ddweud, ac nid am y gŵr a enwyd ar glawr y cofiant ond yn hytrach am un o enwau mawr Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: John Elias.

Gan fod eleni'n 250 mlwyddiant genedigaeth Elias, byddai'n dda ystyried ei gyfraniad, heb anghofio bod bywyd meidrolion yn aml yn cynnwys y gwych a'r gwachul!

**Cefndir**

Ganwyd John Jones (yn ddiweddarach y cafodd ei adnabod fel John Elias) i deulu o wehyddion ym 1774, a chafodd ei fagu ar aelwyd Crymllwyn Bach rhwng Rhos-fawr a Llwyndyrys, sir Gaernarfon. Yn ôl ei hunangofiant, cafodd ei daid gryn ddylanwad arno gan ei dywys i'r eglwys leol bob Sul, ac yn achlysurol i Bentreuchaf i wrando ar bregethwyr Methodistaidd. Ei daid oedd yr esiampl ysbrydol gynnar, drwy arwain defosiwn teuluol a dysgu John bach i ddarllen y Beibl ac i ofni Duw. Fel cynifer o'i gyfoeswyr, magwraeth uniaith Gymraeg a gafodd Elias, heb ryw lawer o addysg ffurfiol. Roedd yn oedolyn pan dreuliodd rai misoedd yn ysgol Evan Richardson



yng Nghaernarfon, ac yno y dysgodd Saesneg. Mae'n amlwg i ddiffyg addysg a'i ansicrwydd gyda'r Saesneg fod yn ddraenen yn ei ystlys gydol ei oes. Mewn llythyr at ei fab, a addysgwyd yng Nghaer, erfyniodd arno i wneud y mwyaf o'i fanteision addysg ac i feistroli'r iaith Saesneg er gwaethaf pob bagliad a sarhad.

**Twf ysbrydol**

Serch colli ei daid yn ei blentyndod, parhaodd Elias i fynychu oedfaon. Ac wrth iddo aeddfedu daeth yn gynyddol ymwybodol o demtasiynau er ei fod yn dyheu am gymdeithas ddyfnach gyda Christnogion. Pan oedd yn ddeunaw oed, cafodd ymweliad â Sasiwn y Bala argraff ddofn arno, a thros y misoedd dilynol profodd hyfrydwch yn ei enaid wrth fyfyrio ar eiriau 2 Corinthiaid 5:18–21. Daeth gwirionedd yr Efengyl yn eglur wrth iddo sylweddoli fod ei bechod wedi cael ei gyfrif i Grist, a chyfiawnder Crist wedi cael ei gyfrif iddo yntau trwy ffydd. Amlygwyd yr athrawiaeth hon trwy gydol ei weinidogaeth a chyhoeddodd draethawd yn ddiweddarach ar gyfiawnhad y pechadur.

**Pregethwr**

Fel pregethwr grymus y cyfeirir at John Elias yn bennaf. Defnyddiai osgo dramatig a llais clir i gymell pechaduriaid i ffoi rhag anghrediniaeth, anfoesoldeb, a barn Duw. A'r ffordd i wneud hynny oedd trwy gofleidio Iesu Grist fel Gwaredwr. Yn nhyb Elias, nid oedd tasg bwysicach na chyhoeddi'r achubiaeth a sicrhaodd Duw trwy aberth Ei Fab. Ac yntau'n un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y cyfnod, nid yw'n syndod clywed fod pobl yn tyrru i wrando arno ar ei deithiau cyson ledled Cymru a Lloegr. Serch hynny, camgymeriad fyddai tybio mai dim ond cynulleidfaoedd parchus a gwerthfawrogol a ddôi i wrando ar John Elias! Mae dau o'r hanesion cofiadwy amdano yn ei ddisgrifio'n pregethu i atal ffair ar ddydd Sul yn Rhuddlan, ac yn ymateb i feddwon anystywallt mewn cymanfa yng Nghaergybi. Dangosodd yr esiamplau hyn ymgais fwriadol Elias i fynd at bobl o bob math gyda'r Efengyl – yn enwedig rhai na fyddai'n arferol yn mynychu addoliad. Ar ben hyn, amlygodd allu rhyfeddol i gyfleu cenadwri yn drydanol o bersonol, nes bod gwrandawyr yn argyhoeddedig bod Duw yn siarad yn uniongyrchol â hwy trwy'r pregethwr. Er ei ddoniau a'i ddyfalwch wrth fireinio'i grefft fel pregethwr, cyfaddefodd Elias mai trwy



nerth oddi uchod y llwyddodd: 'nerthodd yr Arglwydd yn wyneb terfysg mawr ... Rhoddodd fuddugoliaeth!'

**Gweinidog ac arweinydd awdurdodol**

Wrth i'r Methodistiaid barhau i ddatblygu, cynyddodd y galw ar iddynt ordeinio gweinidogion yn hytrach na dibynnu ar offeiriadaeth yr Eglwys Sefydledig. Ac fel un o'r pregethwyr mwyaf blaenllaw, ordeiniwyd John Elias ymhlith gweinidogion cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn sasiwn gogledd Cymru 1811. Erbyn hyn, ac yn sicr wedi marwolaeth Thomas Charles (1814) a Thomas Jones (1820), ef oedd un o arweinwyr mwyaf dylanwadol y Corff, fel y gwelwyd yn ei gyfraniad sylweddol at lunio'r Gyffes Ffydd ym 1823.

Yng ngolwg rhai, glynai Elias at ffurf gul o Uchel Galfiniaeth, ond dyfarniad yr Athro Densil Morgan ar y Gyffes Ffydd yw ei bod yn ddogfen aeddfed a sicrhaodd gydbwysedd athrawiaethol. Ac wrth gyfeirio at gyfraniad penodol Elias, meddai: 'dengys ei waith feistrolaeth benigamp ar holl deithi diwinyddiaeth y cyfamodau, a'i ragoriaeth eithaf fel Cymreigydd, ac mae'r *Gyffes* ar ei hyd yn fynegiant croyw a chyfrifol o'r Galfiniaeth gymedrol.'

Er ei boblogrwydd, enynnodd John Elias wg nifer oherwydd ei natur awdurdodol a'i duedd i bwdu gyda'r rhai oedd yn anghydweld ag ef. Un esiampl hynod oedd pan fu'n lletya o dan yr unto â Lewis Edwards ifanc, ond yn gwrthod siarad ag ef dros y bwrdd brecwast gan i Edwards fod mor feiddgar ag anwybyddu cyngor y pregethwr dylanwadol o Fôn ynglŷn â ble i astudio diwinyddiaeth!

(parhad ar y dudalen nesaf)

*John Elias (1774–1841)*

*(parhad o dudalen 7)*

Ceir hefyd esiamplau ohono'n chwannog i ddiarddel aelodau o'r Methodistiaid nad oedd yn cydsynio â'i safbwyntiau gwleidyddol. Roedd beirniadaeth o'r awdurdodau a ymylai at radicaliaeth wleidyddol yn annerbyniol yng ngolwg Elias, a bu'n chwyrn ei wrthwynebiad i ehangu'r hawl i bleidleisio trwy ddeddf Diwygio Seneddol 1832, ac i Ryddfreinio'r Catholigion ym 1829. Tybed ai yn ystod y cyfnod hwn y dechreuodd rhai gyfeirio ato fel y Pab o Fôn?

Wrth gnoi cil ar fywyd John Elias, cofiwn iddo wynebu profedigaethau dwys gan golli dau blentyn ar eu genedigaeth, a'i wraig gyntaf, Elizabeth, ym 1828. Ailbriododd yn Lerpwl ym 1830 gydag Ann, gweddw Syr John Bulkeley, Bodedern. O hynny hyd ei farwolaeth ym 1841 ymgartrefodd yn y Fron, Llangefni.

A ninnau'n byw mewn oes dra gwahanol, gallwn edrych yn ôl ar gyfraniad John Elias a diolch nad oes angen cefndir arbennig er mwyn i'r Arglwydd ein defnyddio. Waeth beth fo'r amgylchiadau, 'iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd' (Jona 2:9).

*Rhodri Glyn*
*Bangor*

# Adolygiad

*Even The Sparrow, A Pilgrim's Guide to Prayer, Trust and Following the Leader gan Jill Weber* (2019, Muddy Pearl, Caeredin).




Roedd hwn yn llyfr eithriadol o ddarllenadwy. Mae gan yr awdur ddawn ysgrifennu hynod grefftus, doniol a disgrifiadol heb fod yn or flodeuog. Ni synnwn pe bai maes o law yn ysgrifennu nofelau, yn sicr mae ganddi'r ddawn i wneud hynny. Er mai cyfres o fyfyrdodau Cristnogol sydd yma y mae hon yn gyfrol wahanol i'r cyfryw. Ynddi ceir ddeugain o benodau byrion gyda gwahoddiad ar derfyn pob un i gymhwyso'r hyn a gyflwynir i'n bywydau fel Cristnogion. Mae pob pennod yn rhoi cipolwg o ddigwyddiad neu gyfnod yn ei bywyd. Y mae rhai ohonynt yn swrreal, rhai yn eithriadol o ddoniol, eraill yn ddwys a difrifol. Y mae'n sôn am gael ei cham-drin gan ei gŵr cyntaf ac o ganlyniad fe dreuliodd hi a'i merch gyfnod mewn llochesi i fenywod. Ond hyd yn oed yn y caledi y mae'n profi addfwynder cariad Duw yn Iesu.

### Anhrefn bywyd

Nid yw Weber yn cymryd ei hun ormod o ddifrif ac fe ymddengys yn berson hwyliog er iddi wynebu cyfnodau anodd. Wrth iddi sgwennu y mae'n cyfleu'r ymdeimlad o bresenoldeb Duw gyda hi ac ymwybyddiaeth o alwad yr Arglwydd ar ei bywyd. Byddai dweud bod y gyfrol yn blith draphlith braidd yn annheg ond fe gyflwynir y syniad o anhrefn ac o fywyd Cristion yn mynd gyda lli amgylchiadau. Nid yw'r myfyrdodau'n systematic ac yn cyflwyno pwyntiau diwinyddol penodol, gadewir yr hanesion yn benagored gan roi lle i ni fyfyrio ar yr hyn a brofodd ac a welodd.

### Gweddi

Canolbwynt ei bywyd fel Cristion yw gweddi. Bu'n gweithio am flynyddoedd i fudiad House of Prayer yn Ontario ac yna yn yr Unol Daleithiau. Mudiad anenwadol yw HOP sy'n annog gweddi ymhlith Cristnogion. Y mae ganddynt ganolfannau mewn nifer o wledydd sy'n gwasanaethu'r anghenus a chymunedau difreintiedig. Mae ganddi ddiddordeb mewn amrywiaeth o draddodiadau Cristnogol yn cynnwys y mynachaidd a'r litwrgïaidd ac y mae hyn wedi dylanwadu yn fawr arni.

### Hedyn mwstard

Ym mhennod 33 sydd â'r teitl 'ABBESS' y mae'n sôn am ymweld â Herrnhut, yn Yr Almaen. Yno yn y 18fed ganrif yr oedd Nikolaus Ludwig Von Zinzendorf yn byw a ddaeth yn arweinydd y Morafiaid. Ym 1716 ac yntau yn 16 oed cyfamododd gyda rhai o'i ffrindiau i ddilyn bywydau duwiol. Yn nes ymlaen cynhyrchwyd modrwyau ganddynt er mwyn eu hatgoffa o'u haddewid. Y tu mewn i'r modrwyau ysgythrwyd y geiriau, 'nid oes neb yn byw iddynt eu hunain.' (Rhuf. 17:7) Trwy hyn sefydlwyd Urdd yr Hedyn Mwstard. Yr addewidion wnaeth Zinzerdorf a'i ffrindiau oedd, 'bod yn ffyddlon i Grist, yn garedig tuag at eraill gan fynd a'r newyddion da i'r holl genhedloedd.' Bedair canrif yn ddiweddarach fe atgyfododd 24/7 Prayer a YWAM Urdd yr Hedyn Mwstard ym mis Chwefror 2005 yn Holy Trinity, Clapham, Llundain.

Hoffwn gymeradwyo'r gyfrol fel un gwerth ei darllen.

### Am yr awdur

Sefydlodd Jill Weber a'i gŵr Kirk The House of Prayer yn Greater Ontario yng Nghanada a gwasanaethodd yno fel Abades am 17 mlynedd. Symudasant o Ganada yn 2018 ac aeth Jill i fod yn bennaeth yr House of Prayer yn Abaty Waverley. Hefyd y mae'n gwasanaethu ar dîm rhyngwladol 24-7 Prayer, ac yn Gynullydd Byd-eang Urdd yr Hedyn Mwstard. Mae hi'n gyfarwyddwr ysbrydol, yn athrawes ac yn awdur ac, ynghyd â'i gŵr, mae'n mynychu Eglwys Emaus Road lle mae hi yn Gyfarwyddwr Gweddi a Ffurfiant Ysbrydol. Mae hefyd yn awdur: *Free; Belonging and Becoming; Practicing the Way of Jesus a The NineFold Path of Jesus.*



# O Gefn Gwlad

## Distewi mae'r gân

Bu canu emynau yn rhan o'm bywyd i erioed. Canu'r alaw yng nghapel Gwyddelwern i ddechrau, a phan dorrodd fy llais, dysgu canu tenor am fod R. E. Lloyd, oedd yn denor ardderchog, yn digwydd bod yn eistedd am y cefngor â mi. Dwi ddim yn meddwl bod y canu yn ein capel ni yn arbennig, dim gwell a dim gwaeth nag mewn llawer capel arall, os cofia i. Ond roedd pethau'n wahanol pan es i'r coleg i Fangor. Mynychu oedfaon Twrgwyn bob nos Sul, cynulleidfa dda yn llawr y capel, a'r galeri'n llawn o fyfyrwyr y Brifysgol a'r Coleg Normal, a'r canu yno fel canu cymanfa.



Cymanfa Ganu yn Seion, Waunarlwydd, un o gapeli'r Bedyddwyr

A ble bynnag yr oedd criw o Gymry wedi ymgynnull yr adeg honno, ac am genhedlaeth neu ddwy wedi hynny, fe fyddai yna ganu ar nifer dda o'n hemynau mwyaf adnabyddus: mewn cymanfa a chwrs, cynhadledd, gwersyll a thafarn, ac ar y maes chwarae hefyd – rygbi yn enwedig. A does dim rhaid i mi eich atgoffa bod y canu, wrth gwrs, yn ganu pedwar llais. Mewn angladdau yn aml y ceir y canu capel gorau erbyn hyn, er bod pethau'n dirywio yn y rheini hefyd, gyda mwy a mwy o ddynion yn canu'r alaw, os ydynt yn canu o gwbwl.

Cofiwch, nid pawb oedd yn gwybod am draddodiad emynyddol Cymru hyd yn oed yn hanner ola'r ugeinfed ganrif. Mi gofiaf fod un Awst mewn gwesty llawn o eisteddfodwyr rywle yn y de yn y chwedegau. Yn y gwesty hwn deuai negeseuau gan unigolion yn achlysurol ar y system sain: rhywun eisiau cyfarfod rhywun arall. Ac yn y man daeth y neges hon: 'Will William Williams from Carmarthenshire go to the foyer where Ann Griffiths of Montgomeryshire is anxious to meet him.' Fe chwarddodd pawb, ond mater o dristwch oedd o wir na wyddai'r ferch ddi-Gymraeg am ein tradddodiad emynyddol yng Nghymru.

Fe waethygodd pethau, a daeth tro ar fyd hyd yn oed ymhlith y Cymry Cymraeg. Gwagiodd ein capeli, dilëwyd dysgu sol-ffa o gwricwlwm ysgol ac ysgol Sul, ac aeth y canu, hynny sydd yna ohono, yn ganu unsain ar yr alaw yn unig. Dirywiodd i'r fath raddau fel mai eithriad bellach yw cael hanner awr o ganu emynau o gapel yn *Caniadaeth y Cysegr* ar y radio, Yn amlach na pheidio emynau o'r archif ydyn nhw, neu emynau a genir gan gorau fel rhan o broject y BBC i warchod yr holl emynau sydd yn *Caneuon Ffydd*. Ac os ydych chi'n llawenhau o glywed 'Calon Lân' yn cael ei morio ar derasau'r cae rygbi, cofiwch mai hwn yw'r unig emyn erbyn hyn sy'n wybyddus i bawb.

Fel yna y mae hi, ac fe ddaw terfyn yn y man ar ganu cynulleidfaol fel y galwn ef. Ydi o o bwys? Onid haws canolbwyntio ar y geiriau pan nad oes nodau i ymgodymu â hwy? Mi godais i'r mater yn ein cylch trafod yn ddiweddar ac fe gyfaddefodd un nad oedd yn meddwl am y geiriau ond yn ceisio canu'r nodau cywir. Ond fe ddywedodd un arall fod canu emyn yn codi ei chalon ac yn gysur ar adegau trist.

Fel mae'n digwydd, roedd ei hateb hi'n cyd-fynd â gorchymyn cynta John Wesley, a drafododd ganu yn y capel rywdro. 'Canwch,' medde fo, 'bob amser, hyd yn oed pan mae gennych groes i'w chario. Gall y fendith ddod ar yr awr anodd.'

Y mae ganddo gyfarwyddiadau eraill digon diddorol, a dyma un: 'Canwch yn gryf ac nid fel petaech yn cysgu neu'n hanner marw. Peidiwch ofni eich llais eich hun.' Minnau wrth ddarllen y geiriau hyn yn cofio arweinydd côr yn dweud unwaith: 'Os nad ydych yn clywed y nesa atoch yn canu, yna rydech chi eich hun yn canu gormod neu mae o wedi rhoi'r gorau iddi.'

Efallai mai cyfarwyddyd pwysicaf John Wesley i bob un sy'n canu mewn gwasanaeth yw hwn: 'Canwch yn ysbrydol gyda'ch meddwl ar Dduw drwy'r amser.'

Ie, canolbwyntio'r meddwl ar Dduw. 'Molwch yr Arglwydd: canys da yw canu i'n Duw ni; oherwydd hyfryd yw, ie, gweddus yw mawl,' meddai'r salm. Rhan o addoliad yw canu yn y capel i fod, ond yr hyn sy'n fy nhristáu i yw, nid yn gymaint fod y gân yn distewi yn ein haddoldai, ond fod hynny'n golygu hefyd fod gwybod am yr holl emynau sy'n waddol cyfoethog inni fel Cymry yn mynd yn angof ym meddyliau pobol. Mae yna genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth yn codi erbyn hyn sydd fel y ferch yn y gwesty na wyddant hyd yn oed am enwau rhai fel Ann Griffiths a William Williams, Pantcelyn, heb sôn am wybod am eu hemynau.

*Elfyn Pritchard*



(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# GOHEBIAETH

Hoffwn ddiolch o galon i'r rhai hynny ohonoch sydd wedi ymateb i'r erthygl ymddangosodd ym mis Mehefin yn trin a thrafod dyfodol *Y Tyst*. Dyma'r ymateb mwyaf yr ydym wedi ei brofi i unrhyw bwnc ers blynyddoedd lawer ac mor braf yw derbyn gohebiaethau gennych. Mae hyn ynddo ei hun yn bywiogi tudalennau'r wythnosolyn.

Oherwydd yr ymateb amrywiol y mae'n amlwg fod *Y Tyst* yn parhau i gael ei werthfawrogi gan nifer ohonoch fel ffynhonnell gwybodaeth a maeth ysbrydol. Fel y gwyddoch rydym yn ymateb i chwyldro digidol yn y cyfnod hwn ac y mae'n rhaid tafoli hynny yn ddoeth ac yn gadarnhaol er mwyn hyrwyddo gwaith Teyrnas Crist yma yng Nghymru.

Ni wyddom beth fydd dyfodol y cyhoeddiad hwn ond un peth sy'n sicr yw bod yn rhaid i 'r Undeb gael cyfrwng effeithiol a bywiog i gysylltu gyda'i aelodau, yr eglwysi a Chymry yn gyffredinol. A chofiwch bob amser, y mae eich sylwadau yn werthfawr iawn inni. Dyma ragor o sylwadau gennych sydd wedi dod i law. (Gol.)



Annwyl Olygydd,

Gofid i mi oedd darllen yn *Y Tyst* yn ddiweddar fod yna bosibilrwydd y byddai'n papur enwadol yn dod i ben yn ei ffurf bresennol ac i'w gael yn unig ar lein.

Mae fy nghysylltiad i â'r *Tyst* yn mynd 'nôl i bedwar degau'r ganrif olaf. Roedd fy nhad yn derbyn *Y Tyst* yn wythnosol a phan ddechreuais i weithio yng Ngwasg John Penri yn 1961 rhan o'm gwaith oedd cysodi'r *Tyst* bob wythnos ac yna pan y'm dyrchafwyd i fod yn rheolwr y wasg bûm yn gyfrifol am ei gynhyrchu tan i'r wasg gau yn y flwyddyn 2000. Oddi ar hynny y mae yn dod yn gyson i mi trwy law ein dosbarthwr.

Un amser roedd gan ein henwad un o'r siopau llyfrau gorau yng Nghymru – fe'i caewyd; roedd ganddi argraffdy roedd yn argraffu i dros gant o eglwysi – fe'i caewyd; roeddem yn gallu yswirio ein capeli trwy'r enwad – daeth y cyfan i ben; hyd at bum mlynedd yn ôl roeddem yn gallu prynu gwin cymundeb trwy'n henwad – daeth i ben.

Y rheswm am ddiddymu y rhan fwyaf o'r uchod meddent oedd diffyg arian ac rydym yn gweld yr un stori eto yn hanes *Y Tyst*. Ond y gwir yw, mae ein henwad erbyn hyn yn nofio mewn arian ac rwy'n siŵr yn derbyn llawer fwy na cholled *Y Tyst* mewn llogau yn unig.

Mae Bethan fy ngwraig wedi bod yn dosbarthu'r *Tyst* ar hyd ei hoes ac yn ei ddarllen o glawr i glawr. Dyw hi ddim yn deall dim o'r dechnoleg fodern ac felly a yw hi fod i gael ei hamddifadu o wybodaeth ar weithgaredd ein henwad? Rwy'n siwr bod nifer fawr o'r rhai sydd yn derbyn *Y Tyst,* ffyddloniaid ein capeli, yn yr un sefyllfa â hi.

Apeliaf arnoch felly i barhau i gynhyrchu'r *Tyst* yn y modd bresennol.

Yn ddiffuant,

**D. Elfryn Thomas,**
Ysgrifennydd Moreia, Tycroes ac aelod personol o'r Undeb

---

**Annwyl Olygydd**

Teimlaf fod colled flynyddol o £36,000 yn annerbyniol ac, er fy henaint, y dyliwn fod yn barod i'w ddarllen ar y we naill ai fel Y Tyst neu fel rhan o Cennad,

**Gwyn M Lloyd**

---

**Annwyl Olygydd,**

Barod i dderbyn y Tyst ar lein,

**Mair Jones**

---

**Annwyl Olygydd,**

1. Anghofio enwadaeth. Credaf yn gryf fod pwerau'r greadigaeth (h.y. terfynol) yn bwerus ac yn sanctaidd ac o'n bwrw ein hunain arnynt yn bwerau iechydwriaeth sydd yn UNO.
2. Pob enwad at ei gilydd. Un cylchgrawn pob pythefnos ac UN eglwys yn gyfrifol ar y tro – gyda thudalen oddi wrth eglwysi eraill os bydd eisiau. Tudalen i'r plant, erthyglau yn adrodd profiadau unigolion.
3. Gofyn am fendith yr Anfeidrol.

**Elwyn Parry**

Y TYST

# Irene Williams 1921–2024

Mae pawb a'i hadnabu'n cydnabod bod Irene yn berson arbennig iawn. Beth a'i gwnaeth yn arbennig?

Yr oedd Irene yn gynnyrch y diwylliant Anghydffurfiol Cymreig, sydd, ar ei orau, yn deffro person i'r ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb a dyletswydd a'r syniad ein bod ar y ddaear yma i bwrpas. Credai'n argyhoeddedig taw'r pwrpas hwnnw yw cydweithio â'r Creawdwr yn ei waith achubol, a chwmpasai'r 'achub' hwnnw'r byd o'i dlodi a'r genedl hon o'i gwaseidd-dra.

### Perthynas greadigol

Wrth reswm, yr oedd o dan ddylanwad Cyril a'i syniadau blaengar, fel yr oedd Cyril o dan ei dylanwad hithau â'i gweithredu egnïol. Perthynas, neu bartneriaeth, creadigol oedd rhyngddynt oedd wedi ei sylfaenu'n llwyr ar eu hadnabyddiaeth o Dduw yn Iesu, a'r ddealltwriaeth taw 'cariad yw Duw'.

Fe'i hysgogwyd gan gariad dwfn a ffrwythlon: Mynegwyd hyn yn ei chariad at Cyril. Ystyriai bod Cyril yn athrylith, ac yn gywir felly, wrth gwrs. Credai taw rhan o'i chyfrifoldeb oedd creu'r amgylchiadau i Cyril allu gwneud ei waith. Yr oedd yn fodlon mynd i ben draw'r byd (yn llythrennol) er mwyn gofalu amdano tra'i fod yn gwneud ei waith fel dysgawdwr ac ymchwilydd. Yr oedd yntau'n barod i'w chefnogi hithau yn ei hymgyrchu.

### Cariad

Ei chariad at ei theulu, plant, wyrion a gor-wyrion. Dyma gannwyll ei llygad, neu, yn hytrach canhwyllau. Bu colli Ann, ei merch, yn ergyd arbennig o boenus, ond ni surodd o'i herwydd, bu'n ysgogiad i'w gyrru'n ffyrnicach.

Ei chariad at ei chenedl. Yn trefnu a gweithredu dros y mudiad cenedlaethol, a hynny'n wleidyddol ac yn ddiwylliannol. Yn genedlaetholreg 'naturiol', doedd dim angen athronyddu dros y peth, yr oedd ymladd dros gyfiawnder i'w gwlad a'i hiaith mor naturiol ag anadlu iddi.

Ei chariad at y ddynoliaeth a'i pharch at yr amrywiaeth godidog. Nodwedd o'i chyfnod yn Llambed oedd y bobol o dramor oedd ar ei haelwyd. Ei dicter at yr anghyfiawnder yn ein byd a arweiniodd at ei gweithredu dros Gymorth Cristnogol.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Gair gan Aled



Mae'r flwyddyn wedi hedfan unwaith yn rhagor – a chyfle i bawb ohonom gael egwyl. Edrychaf ymlaen at fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, a chael cyfle i ymweld â rhai o fy hoff fannau ar y daith. Un o'r llefydd hynny, nepell o Drefeca ac Aberhonddu yw pentref croesawgar Talgarth, a'r holl gysylltiadau â hanes crefyddol ein cefndiroedd oll. Un llecyn tawel i gael adfywiad yw'r safle y soniaf amdano yn gerdd newydd hon.

### MYNWENT EGLWYS TALGARTH

Deuwn atat ar yr heolydd tawelaf i Dalgarth
i sleifio i'r byd arall
lle mae'r llen yn denau
a modd amgyffred yr hyn a gafwyd yn Nhrefeca.
Diolch am y chwa yn Nhalgarth
o wres dy galon Di.
Yma y cafodd Hywel Harris ei brofiad ysbrydol
gerllaw un o'r beddau hyn,
a'i galon 'fel cŵyr yn meddalu',
a dafnau ohono'n dal i'n cyrraedd ni heddiw.
Mae ymdeimlad braf o gyrraedd pen y bryn,
a synhwyro'r lle.
Ei awelon yn dal i ddod heibio
ar y bryncyn bendigaid hwn
ynghanol haf.
Gwraig yn glanhau y beddau
yn y tawelwch arbennig,
yn glanhau'r geiriad
**'Y cof yw'r gadwyn aur**
**sy'n ein clymu ni**
**tan y cwrddwn eto.'**
Chwa yn sibrwd ei genadwri
o gariad yn y dail.
Gadewch y giât ar agor ychydig
ar gyfer y pererin nesaf i'r fynwent
ar ben bryn Talgarth,
lle daeth y dwyfol wynt sawl tro
fel y gwna
i doddi calonnau'n ddiferion o gŵyr.

### GWEDDI'R HAF

Dduw Dad, mae Cyhydnos y Gwanwyn wedi bod, a ninnau bellach heibio hanner 2024. Mae y blynyddoedd yn gwibio heibio – rydym mor brysur, ynghanol holl weithgareddau bywyd, fel yr anghofiwn weithiau am werth llonyddwch, ac i dreulio amser yn dy bresenoldeb Di, O Dduw.
Yn nhymor yr haf dysg ni i werthfawrogi holl ryfeddodau dy fyd, yn y mis hyfryd hwn sydd hefyd yn orffen haf.
Diolchwn am dy ddaioni tuag at bob un ohonom, a dy ddarpariaeth ar ein cyfer.
Diolchwn yn arbennig am rodd Iesu i ni – y ffordd atat Ti, a'r gwirionedd yn ein bywydau.
Wrth i ni symud ymlaen i adran nesaf y flwyddyn gofynnwn am gael y cyfle i wneud hynny yn Dy Obaith a'th Ymddiried Di.

Amen.

**Aled Lewis Evans**
(allan o *Shalom* Gorffennaf–Awst, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam.)

# Irene Williams 1921–2024 – *parhad*

Ei chariad at gyfiawnder a heddwch. Nid oedd unrhyw ddadl yn mynd i'w hargyhoeddi o'r angen am arfau a rhyfela. Roedd e'n rong, a dyna hi. Bu ar nifer o brotestiadau, ac rwy'n siŵr pe byddai wedi bod ychydig yn iau byddai wedi bod gyda Siân yn Greenham!

Ei chariad at y Creawdwr. Hyn oedd sylfaen y cyfan, y cariad aberthol hwnnw sy'n rhoi ystyr a phwrpas i bob person byw ac sy'n annog pobol i gyfrannu'n greadigol at fywyd.

Ei chariad at Iesu, y datguddiad o Dduw. Fe gytunai'n llwyr, er ei pharch at yr holl grefyddau a'r dehongliadau godidog a geir, taw 'Un fel Iesu yw Duw', yr egni cariadlon hwnnw a ymdreiddiodd drwy ei bywyd.

**Guto Prys ap Gwynfor**

*(Diolch o galon i Guto am y deyrnged hyfryd hon i gymeriad arbennig. Gol.)*

# Cadw Dyddiadau

Byddwch yn cofio i'r pandemig effeithio'n drwm ar weithgarwch y Gymdeithas ac i'r gynhadledd oedd i'w chynnal yn Boston, UDA i ddathlu 400 mlwyddiant glaniad y tadau pererin yn 1620 gael ei chanslo.

Ymunodd amryw yn y gynhadledd undydd, rithiol a gynhaliwyd yn 2021 gan werthfawrogi'r arlwy gyfoethog o gyflwyniadau a gafwyd. Pellter y daith i Fiji, yn anad un dim arall, a gadwodd yr Annibynwyr o Gymru o gynhadledd 2023.

Bellach, y mae'n llawenydd datgan bod cynhadledd yn cael ei threfnu ar gyfer 2025, i'w chynnal yn Thesaloniki yng ngwlad Groeg ar 22–26 Mai. Cost y gynhadledd fydd oddeutu $1350 heb gynnwys costau teithio.

Disgwyliwn yn eiddgar am fanylion pellach.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pererindod Pen-y-bont a Threfgarn Owen

Braint a phleser o'r mwyaf oedd ymuno ag aelodau capel Pen-y-bont, Cas-blaidd a chapel Trefgarn Owen ar bererindod i gapel Tabernacl, Treforys a Chanolfan Calon Lân, Mynydd-bach ar ddydd Sul, 23 Mehefin. Dyma'r bererindod gyntaf ers ymddangosiad Covid, a braf iawn oedd cael ailgydio yn y teithiau hynod ddiddorol a bendithiol rhain.

### Treforys

Cyrhaeddon ni Dreforys amser cinio, gyda'n basgedi picnic yn orlawn o ddanteithion, a chael ein croesawu'n wresog gan rai o'r aelodau, oedd wedi darparu byrddau i ni a dished o de neu goffi a bisgedi.

Ni oedd y gwesteion cyntaf i dderbyn croeso i'r stafelloedd ar eu newydd gwedd; gofod golau, cysurus a chroesawgar iawn. Esboniwyd i ni fod y stafelloedd ar gael i'w llogi gan y gymuned leol a'r gobaith yw y bydd hyn yn gymorth i dalu am gynnal adeilad y capel.



### Pensaernïaeth

Ymlaen â ni wedyn i mewn i'r capel a chael ein syfrdanu gan harddwch a cheinder yr adeiladwaith. O'r tu allan, yn fy marn i, nid yw'r adeilad yn hardd, er ei fod yn enfawr a solet iawn. Mae'n sefyll yng nghanol y dref ac mae'n anodd ei weld yn ei gyfanrwydd oherwydd yr holl adeiladau eraill o'i gwmpas. Ond mae harddwch y tu fewn yn mynd a'ch anadl yn grwn. Ond, er maint yr adeilad, roedd awyrgylch o heddwch ac agosatrwydd yn eich lapio'n gynnes. Cafwyd braslun o hanes y capel a'r achos gan y Bnr David John a hanes yr organ hardd gan y Bnr Huw Tregelles Williams. Buom yn hynod o freintiedig i fwynhau datganiad ar yr organ ganddo, ac ef fu'n cyfeilio i'r emynau yn ystod y gwasanaeth a oedd dan ofal y Parchg. Geoffrey Eynon.





### Addoliad

Cyfeiriodd Geoff at Rhoda, y forwyn a oedd y cyntaf i glywed llais Pedr ar ôl iddo ddianc o'r carchar. Roedd hi wedi'i chyffroi gymaint, fe ruthrodd at ei meistres gan anghofio agor y drws iddo. Cyfeiriodd Geoff hefyd at lun enwog Holman Hunt, 'Goleuni'r Byd'. Ni sydd fod agor y drws er mwyn i Grist ddod i mewn i'n bywydau a'n calonnau. Diolchwn am y rhai, fel aelodau Tabernacl, sy'n gweithio'n galed ac yn arloesi i gadw drysau'n capeli ar agor.

### Mynydd-bach

Ar ôl ffarwelio â Thabernacl, aethom yn ein blaenau i gapel Mynydd-bach, cartref Canolfan Calon Lân. Fe'n croesawyd gan y Bnr Roy Church. Cawsom gan Roy hanes y ganolfan a hanes Daniel James (Gwyrosydd), awdur yr emyn 'Calon Lân', a hefyd hanes John Hughes, cyfansoddwr yr emyn-dôn o'r un enw. Ar ôl cyfle i astudio hanes 'Calon Lân' sydd ar y byrddau gwybodaeth o gwmpas y festri, ac i edmygu'r capel hardd, cydganwyd 'Calon Lân' cyn dilyn y llwybr trwy'r hen fynwent anferth at fedd Gwyrosydd. Teithio wedyn i dafarn y Rheilffordd yn Nantgaredig, lle cawsom groeso cynnes a phryd o fwyd ardderchog cyn troi am adref.

Diolch o galon i Geoff am drefnu pererindod arbennig iawn; am y croeso twymgalon yn Nhabernacl a Mynydd-bach; i Melanie a'r staff yn y Rheilffordd ac i'n gyrrwr Tim o Fysiau Cwm Taf am daith gysurus a diogel.

**Ann Morris**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*